CYNGOR TREF PORTHMADOG

10fed o Ragfyr 2015

Ein cyf : 195/12/15
Eich cyf : HWI/ SEJ

Heilyn Williams
Adran Rheoleiddio
Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd
Cyngor Gwynedd
Swyddfa Ardal Dwyfor
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA

heilynwilliams@gwynedd.gov.uk

Annwyl Mr. Williams,

**Parthed – Deddf trwyddedu 2003 , cais am drwydded eiddo Motor Fuel Ltd, Convenience Store, Porthmadog Filling Station, High Street,Porthmadog, LL49 9NG.**

Diolch am eich llythyr dyddiedig y 25ain o Dachwedd 2015 parthed yr uchod drafodwyd mewn cyfarfod o Gyngor Tref Porthmadog ar y 8fed o Ragfyr 2015.

Croesawyd y cyfle i ddanfon sylwadau i chi ar y cais.

Roedd y cynghorwyr yn erbyn y cais hwn am amryw o resymau. Teimlwyd yn gryf nad yw gwerthu alcohol ar safle sydd yn gwasanaethu gyrwyr moduron yn ddoeth. Teimlir nad oes angen safle arall yn y dref sydd yn cynnig alcohol yn enwedig o ystyried fod y garej yma ar agor o 6 yn y bore dan oriau man y bore.

P byddai'r ddeddf yma yn cael ei ganiatáu teimlwyd yn gryf y dylai amod fod ar y drwydded eu bod yn ymrwymo i fod yn rhan o ymwybyddiaeth cam-ddefnyddio alcohol ac yfed dan oed gan farcio poteli alcohol. Byddai hyn yn galluogi’r awdurdodau i ddarganfod ble mae pobl ifanc yn cael gafael ar alcohol. Teimlwyd y byddai hyn yn gam ymlaen i reoli gwerthu a phrynu alcohol.

Yn gywir,

*Glenda Burke*

**Glenda Burke**
**Clerc Cyngor Tref Porthmadog**

*Clerc/Clerk: Mrs Glenda Burke, 44 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE.*
*Ffôn/Tel: 01766 512683*
*E-bost/E-mail: clerccyngtreport@gmail.com*